| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG (ARFON)** |
| **DYDDIAD:** | **5 MEHEFIN 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS AM WYRIAD O DRWYDDED EIDDO – STAR KEBAB, 323 STRYD FAWR, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am wyriad o drwydded eiddo Star Kebab, 323 Stryd Fawr, Bangor LL57 1YA gan ddeilydd y drwydded, Mehmet Kabadayi.
Gwneir y cais er mwyn ceisio am ymestyniad o awr yn ychwanegol , 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer y gweithgaredd trwyddedig o ddarparu lluniaeth hwyr y nos.

| Gweithgaredd trwyddedig | Trwydded gyfredol | Trwydded arfaethedig |
|---|---|---|
| Sul – Iau | 23:00 – 02:00 | 23:00 – 03:00 |
| Gwener - Sadwrn | 23:00 – 02:30 | 23:00 – 03:30 |

## CEFNDIR

Ar y 12fed o Ionawr 2012, fe ganiataodd yr Is - Bwyllgor hwn adolygiad o drwydded yr eiddo gan Heddlu Gogledd Cymru ar sail tystiolaeth o drosedd ac anrhefn, ac ymddygiad gwrth gymdeithasol gan gwsmeriaid yr eiddo.
Fel canlyniad i'r adolygiad, fe gwtogwyd oriau gweithgareddau trwyddedig yr eiddo i'r oriau presennol, ynghyd ac ychwanegu amodau ychwanegol mewn perthynas â darpariaeth Teledu Cylch Cyfyng a Goruchwylwyr Drysau.

Ar y 29ain Dachwedd, fe gafwyd gwrandawiad o'r Is - Bwyllgor hwn lle ystyriwyd Rhybuddion o Ddigwyddiadau Dros Dro gan ddeilydd y drwydded i ganiatáu ymestyniad o oriau trwyddedig o un awr ar 15 achlysur yn ystod mis Rhagfyr 2012. Fe gyflwynodd yr Heddlu dystiolaeth o drosedd ac anrhefn ; ac adrodd ar achosion troseddol a diffyg cydymffurfio ag amodau trwydded yr eiddo. Fe ganiatawyd y Rhybuddion Digwyddiad Dros Dro gan y pwyllgor.

## YMGYNGHORIAD

Ymgynghorwyd ar y cais ac fe gafwyd sylwadau a gwrthwynebiad i'r cais gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae gwrthwynebiad yr Heddlu yn cael ei wneud ar sail yr oll o'r amcanion trwyddedu –

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Rhwystro niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

Cyflwynwyd y gwrthwynebiad oherwydd parhad problemau yn ymwneud a'r eiddo, a thystiolaeth nad yw deilydd y drwydded yn cydymffurfio a rhai o amodau'r drwydded. Gweler manylion llawn sylwadau a sail gwrthwynebiad yr Heddlu ynghlwm a'r adroddiad hwn.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.